**Sesiwn 2000-2001 Rhif 08**

# PAPURAU BUSNES

## DYDD MERCHER, 7 MEHEFIN 2000

## RHAN 1 – ADRAN A

## AGENDA

**Bydd y cyfarfod yn cychwyn am 2pm**

**Cwestiynau i Peter Law – Ysgrifennydd dros Lywodraeth Leol a Thai** (15 munud)
Mae rhestr o'r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe'r Siambr)

**Cwestiynau i Sue Essex – Ysgrifennydd dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth** (15 munud)
Mae rhestr o'r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe'r Siambr)

**Cymeradwyo Gorchymyn y Cyngor Datblygu Garddwriaeth** (Gorchymyn Rhan 2)
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, drwy weithredu yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 22.33, yn cymeradwyo drafft o Orchymyn Cyngor Datblygu Garddwriaeth (Diwygio) 2000 y cyflwynwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Mai 2000.

**Dadl ar y Comisiynydd Plant**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. yn cydnabod cyfraniad y broses ymgynghori i ddatblygiad cynigion y Pwyllgorau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg Cyn 16 a Dysgu Cynnar i rôl, cylch gwaith a swyddogaethau Comisiynydd annibynnol i Blant yng Nghymru;
2. yn ategu'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a gyflwynwyd i'r Swyddfa Gyflwyno ar 31 Mai 2000; a
3. yn penderfynu y dylai'r Cabinet barhau i drafod gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch cyfle deddfwriaethol cynnar i roi swyddogaethau statudol i'r Comisiynydd sy'n ehangach na'r rheini a roddir iddo yn y Mesur Safonau Gofal.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth – ond bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol.

(1)

(2)

(3+4)

**Gwelliant 1 - Helen Mary Jones (Llanelli);**

Ar ddiwedd pwynt bwled un ychwaneger:

‘ac mae’n ddiolchgar i’r holl bobl hynny a gymerodd ran yn y broses ymgynghori, yn enwedig y plant a’r bobl ifanc.’

**Gwelliant 2 - David Melding (Canol De Cymru);**

Ychwanegu’r pwynt canlynol ar ôl pwynt 1 ac ailrifo’r pwyntiau dilynol:

2. yn pwysleisio pwysigrwydd y teulu o ran diogelu a magu plant, ac felly’n credu y dylai cylch gwaith y Comisiynydd Plant ymwneud yn unig â’r gwasanaethau ar gyfer plant a ddarperir gan asiantaethau cyhoeddus ac eraill;

**Gwelliant 3 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);**

Dileer geiriad pwynt 3 hyd at a chan gynnwys "cyfle deddfwriaethol cynnar" gan roi’r canlynol yn ei le, "yn gofyn yn ffurfiol, a hynny cyn gynted ag y bo modd, i Ysgrifennydd Gwladol Cymru hysbysu Pwyllgor Cabinet y DU ar Araith y Frenhines a Deddfwriaeth at y Dyfodol o gynigion y Cynulliad"

Ar ddiwedd pwynt 3 dileer "." ac ychwaneger "fel y’u nodir yn yr argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor."

**Gwelliant 4 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);**

Ychwaneger ar ddiwedd pwynt 3: "Yn benodol mae’r Cynulliad yn cadarnhau ei fod o’r farn y dylai’r Comisiynydd Plant i Gymru gael pwerau statudol ar draws pob maes sy’n effeithio ar blant yng Nghymru, ac y dylai ei b/phwerau gynnwys y canlynol:

pwer i fynnu bod ymchwiliadau’n cael eu cynnal

pwerau i orchymyn bod gwybodaeth yn cael ei datgelu

pwerau i fynnu bod awdurdodau a chyrff cyhoeddus yn gweithredu, yn unol â'u dyletswyddau eu hunain."

**Dadl Fer:** (i ddechrau erbyn 5pm)
**Geraint Davies (Rhondda); Darpariaeth Ysbytai yn y Rhondda**

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad**

**am 2.00pm ddydd Mawrth, 13 Mehefin 2000**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**